



TROSOLWG O GYDSYNIO YNNI ADNEWYDDADWY MOROL YN NYFROEDD CYMRU

Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni rhwng 1MW - 350MW yn nyfroedd Cymru (ar y glannau neu ar y môr)

Cydsyniad	Awdurdodaeth	Awdurdod Trwyddedu/ Cydsynio	Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad)	Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig)
Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)	Dyfroedd Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gweinidogion Cymru
Adran 36 Cydsyniad Ynni o dan y Ddeddf Trydan	Dyfroedd Cymru	Gweinidogion Cymru, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio	Gweinidogion Cymru	Y Goron (euogfarn ddiannod)

Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW sy'n gyfan gwbl yn nyfroedd glannau neu fôr mawr Cymru

Cydsyniad	Awdurdodaeth	Awdurdod Trwyddedu/ Cydsynio	Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad)	Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig)
Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Deddf Cynllunio 2008)	Dyfroedd Cymru	Yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol	Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag a bennwyd i gyflawni'r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn)	Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag sydd wedi'i bennu yn narpariaethau'r Gorchymyn
Trwydded Forol (Rhan 4 o Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)	Dyfroedd Cymru	Gall Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol 'dybio' bod trwydded forol os yw seilwaith y prosiect yn gyfan gwbl o fewn rhanbarth môr mawr Cymru, neu Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw datblygwyr yn dewis peidio â chynnwys trwydded forol 'dybiedig' fel rhan o'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.	Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru)	Gweinidogion Cymru (dyfroedd Cymru)
	Glannau Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru		

Prif gydsyniadau ar gyfer prosiect ynni mwy na 350MW sydd ym môr mawr Cymru a dyfroedd Lloegr

Cydsyniad	Awdurdodaeth	Awdurdod Trwyddedu/ Cydsynio	Awdurdod sy'n Awdurdodi Gwaith Morol (ar ôl y penderfyniad)	Awdurdod Gorfodi (Cymru'n unig)
Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Deddf Cynllunio 2008)	Môr mawr Cymru a dyfroedd Lloegr	Yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol	Cyfoeth Naturiol Cymru (dyfroedd Cymru yn unig), y Sefydliad Rheoli Morol (dyfroedd Lloegr yn unig), yr Ysgrifennydd Gwladol, Awdurdod Cynllunio Lleol (pwy bynnag a bennwyd i gyflawni'r darpariaethau penodol yn y Gorchymyn)	Y Goron (euogfarn ddiannod neu ar euogfarn ar dditiad), neu bwy bynnag a bennwyd yn narpariaethau'r Gorchymyn
Trwydded Forol (Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009)	Môr mawr Cymru	Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol 'dybio' bod trwydded forol os yw seilwaith y prosiect yn gyfan gwbl o fewn rhanbarth môr mawr Cymru, neu Cyfoeth Naturiol Cymru, os yw datblygwyr yn dewis peidio â chynnwys trwydded forol 'dybiedig' fel rhan o'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Gweinidogion Cymru
	Dyfroedd Lloegr	Sefydliad Rheoli Morol neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn dilyn argymhelliad gan yr Arolygydd Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (os yw trwydded forol yn un 'tybiedig')	Y Sefydliad Rheoli Morol	Y Sefydliad Rheoli Morol

